

## Glastir Uwch – Esbonio'r Broses Ddewis

I gael eich ystyried ar gyfer Glastir Uwch, rhaid cyflwyno Mynegiant o Diddordeb i Lywodraeth Cymru. Caiff pob Mynegiant o Ddiddordeb cymwys a ddaw i law Llywodraeth Cymru ei ystyried.

Bydd y broses yn ystyried potensial pob Mynegiant o Ddiddordeb i gyfrannu at amcanion targed Glastir o ran yr amgylchedd, safleoedd hanesyddol, y tirlun a hamdden. Gwneir hynny trwy edrych i ba raddau y mae'r tir a gynhwysir yn y Mynegiant o Ddiddordeb yn cyfateb â mapiau digidol haenau'r System Gwybodaeth Ddaeryddol (GIS). Mae'r haenau GIS hyn yn dangos y llefydd gorau i wireddu amcanion Glastir. Er enghraifft, byddai'n well cynnal gweithgareddau er lles y Pathew neu'r Wiwer Goch lle ceir poblogaeth ohonynt eisoes ac mewn ardaloedd cyffiniol lle gellid eu hannog i ymgartrefu.

Rhoddir sgôr fesul hectar ar gyfer pob haen GIS, hynny yn unol â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru. Caiff pob Mynegiant o Ddiddordeb ei asesu yn unol â phob haen, a bydd y sgôr a roddir yn seiliedig ar faint o dir a geir ym mhob haen. Cyfrifir hwnnw trwy ddefnyddio'r fformwla:

$$\frac{\text{Arwynebedd Haen yr Amcan Targed*} \times \text{Pwysoliad y Targed}}{\text{Arwynebedd y Mynegiant o Ddiddordeb}} = \text{Sgôr}$$

\*O fewn arwynebedd y Mynegiant o Ddiddordeb

### Er enghraifft:

Mae Mynegiant o Ddiddordeb o 90.24 ha wedi'i gyflwyno. O hwnnw, mae 65.64ha yn yr haen Cornchwiglen – rheolaeth wedi'u dargedu sydd â phwysoliad o 4 yr hectar. Mae cyfraniad yr haen i'r cyfanswm sgôr yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

$$\frac{65.64 \times 4}{90.24} = 2.9$$

Mae'r haen Rhwydweithiau Coetir Trydyddol felly yn cyfrannu 2.9 o bwyntiau i sgôr y Mynegiant o Ddiddordeb.

Dilynir y fformwla hon ar gyfer pob haen GIS y mae'r Mynegiant o Ddiddordeb yn cyfateb iddi. Byddwn wedyn yn adio sgôr pob haen i roi cyfanswm sgôr y Mynegiant o Ddiddordeb. Bydd Mynegiant o Ddiddordeb sy'n cyfateb i nifer dda o haenau GIS ag iddynt flaenoriaeth uchel, yn cael sgôr uwch.

Rhenni'r y sgôr cyfanswm ar gyfer yr haenau targed gan arwynebedd y Mynegiant o Ddiddordeb. Defnyddir y sgôr terfynol yma i roi yr holl Fynegiadau o Ddiddordeb yn eu trefn. Caiff y rheini sydd â'r sgôr uchaf eu dewis a'u prosesu.